Ysgol Gynradd Gymraeg Bryniago
Stryd Iago Isaf,
Pontarddulais, Abertawe, SA4 8JA
www.ysgolbryniago.co.uk
ygg.bryniago@swansea-edunet.gov.uk
(01792) 882012
Pennaeth: Miss Nia Jones

**TREFNIADAU NEWYDD AR GYFER CEFNOGI PLANT A PHOBL IFANC AG ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG AC ANABLEDDAU**

Annwyl Riant/Ofalwr

**<u>Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (ADYTA 2018)</u>**

Mae'r system ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig ac anabledd yng Nghymru’n newid. Mae Llywodraeth Cymru'n cyflwyno system newydd, fwy hyblyg ac ymatebol i ddiwallu anghenion plant ag anghenion addysgol arbennig neu anableddau.

Bydd y system newydd yn sicrhau:

- Y nodir anghenion yn gynnar, y rhoddir sylw iddynt yn gyflym ac y cefnogir pob dysgwr i gyflawni’i botensial.
- Mae ein gweithwyr proffesiynol yn fedrus ac yn hyderus wrth nodi anghenion a defnyddio strategaethau i helpu dysgwyr.
- Mae'r dysgwr yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud ac mae ef, ei rieni a'i ofalwyr yn bartneriaid cyfartal yn ei ddysgu. Gelwir hyn yn Ymagwedd sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn.

Bydd y system newydd yn cael ei **<u>chyflwyno'n raddol</u>** dros yr ychydig flynyddoedd nesaf (2021 - 2024) yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Dyma rai o'r negeseuon allweddol am y newidiadau hyn a'r hyn y gallant ei olygu i chi a'ch plentyn.

**<u>Negeseuon allweddol</u>**

- Bydd y term Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn disodli'r termau Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) ac Anawsterau Dysgu ac Anableddau (ADA)
- Bellach, gelwir Cydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig (Cydlynwyr AAA) mewn ysgolion yn Gydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cydlynwyr ADY)
- Bydd y Côd ADY gorfodol ar gyfer y system newydd yn cynnwys plant a phobl ifanc 0-25 oed. Mae hyn yn golygu y bydd gan y blynyddoedd cynnar a cholegau addysg bellach ddyletswyddau o dan y Ddeddf, ond nid yw hyn yn cynnwys addysg uwch na phrentisiaethau.
- Os yw eich plentyn ar y cam Gweithredu Ysgol/Gweithredu Ysgol a Mwy neu os oes ganddo Ddatganiad o Anghenion Arbennig, bydd hyn yn newid dros y 3 blynedd nesaf. Bydd gan bob plentyn a pherson ifanc sydd ag angen dysgu ychwanegol (ADY) a nodwyd y mae angen darpariaeth ddysgu ychwanegol (ADY) ar ei gyfer Gynllun Datblygu Unigol (CDU). Bydd y CDU yn disodli Cynlluniau Addysg Unigol (CAUau) a Datganiadau o AAA.
- Cyfrifoldeb yr ysgol fydd y mwyafrif o Gynlluniau Datblygu Unigol ond mewn rhai amgylchiadau, gallant gael eu cynnal gan yr awdurdod lleol. Awdurdodau lleol fydd yn gyfrifol am CDUau i blant dan oedran ysgol gorfodol y mae arnynt angen y rhain, er enghraifft, yn y blynyddoedd cynnar.
- Mae’r Ddeddf ADYTA yn disgwyl i bawb sy'n ymwneud â'ch plentyn e.e. Lleoliadau gofal plant, Addysg, Iechyd a Gofal Cymdeithasol, gydweithio i gefnogi plant a phobl ifanc ag ADY.
- Bydd rhagor o gyfleoedd i blant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr gyfrannu at Gynlluniau Datblygu Unigol.
- Disgwylir y bydd cydweithio'n agosach yn helpu i osgoi anghytundebau.
- Cymerir yr holl gamau rhesymol i sicrhau y bydd darpariaeth ddysgu ychwanegol yn cael ei darparu yn Gymraeg, os oes angen.

**<u>Gwybodaeth Ychwanegol</u>**

Mae'r cwrs e-ddysgu rhyngweithiol sy'n rhoi cyflwyniad i'r system ADY newydd ar gael ar y dolenni hyn:

https://hwb.gov.wales/news/articles/20686965-8669-40ac-bdc5-599f4a4dfe8b

https://hwb.gov.wales/repository/publishers/9fb2afc9-6408-4aa3-9474-3c745006535b/resource/c8033263-aaa0-42fc-9511-ab7d33bd8084/cy

Mae ALl Abertawe wedi penodi tîm o weithwyr achos ADY i gefnogi teuluoedd plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Cysylltwch â CADY yr ysgol am ragor o wybodaeth.

Gellir cael taflenni sy'n esbonio'r newidiadau mewn rhagor o fanylder gan yr ysgol.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth neu gyngor, ewch i wefan Awdurdod Lleol Abertawe yn www.abertawe.gov.uk/anghenionDysguYchwanegol

Mae gan ein hysgol ei gwybodaeth ei hun ar ein gwefan yn https://www.ysgolbryniago.co.uk/

Yn gywir,

Miss Nia Jones